

Papur Cylch Gwaith Arolygu Cymru

Crynodeb o gylchoedd gwaith cyrff archwilio ac arolygu'r sector cyhoeddus yng Nghymru a Rhaglen Arolygu Cymru

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 376A2015



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

aglc
Healthcare
Inspectorate
Wales
hiw
Arolygiaeth
Gofal Iechyd
Cymru

AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Core and Social Services Inspectorate Wales

Estyn

Cynnwys

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	3
Cylchoedd gwaith y cyrff archwilio ac arolygu	4
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru	4
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)	5
Estyn, Arolygydd Addysg Cymru	6
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)	6
Rhaglen Arolygu Cymru	7

Atodiadau

Y sail gyfreithiol dros gyrrff archwilio ac arolygu yng Nghymru	8
Canlyniad Adolygiad Archwilio ac Arolygu 2014 Llywodraeth Cymru	11


Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Rhaglen ar y cyd rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru (a staff Swyddfa Archwilio Cymru), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn (swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw Rhaglen Arolygu Cymru. Sefydlodd y pedwar Pennaeth Archwilio ac Arolygu Raglen Arolygu Cymru yn 2009. Cydnabu'r pedwar partner, er bod eu cylchoedd gwaith yn benodol iawn, fod meysydd lle mae'r cylchoedd gwaith hyn yn gorgyffwrdd, a bod cydweithio felly yn ddymunol iawn. Nod Rhaglen Arolygu Cymru yw gwella cydweithio a chydweithredu rhwng y partneriaid lle bynnag y bo hynny'n briodol.
- 2 Mae'r papur hwn yn amlinellu cylchoedd gwaith yr asiantaethau archwilio ac arolygu a Rhaglen Arolygu Cymru.

Trosolwg o rolau a chyfrifoldebau'r cyrff archwilio ac arolygu

Diagram o'r cyrff archwilio ac arolygu a lle y gall Rhaglen Arolygu Cymru helpu i gefnogi eu gwaith



Ffynhonnell: Rhaglen Arolygu Cymru

Cylchoedd gwaith y cyrff archwilio ac arolygu

- 3 Mae gan y pedwar corff archwilio ac arolygu rolau a swyddogaethau penodol iawn, fel y'u diffiniwyd drwy eu priod sail statudol (gweler [Atodiad 1](#) am fanylion sail ddeddfwriaethol gwaith pob corff). O ganlyniad, mae'r meysydd hynny sydd o ddiddordeb cyffredin wedi'u cyfyngu i rai meysydd gwasanaeth penodol.
- 4 Yn syml, mae AGGCC yn arolygu ac yn rheoleiddio gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol, mae AGIC yn arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd ac mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant. Mae arolygu yn ymwneud ag ystyried safonau gwasanaethau, ac mae rheoleiddio yn ymwneud â sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau.
- 5 Archwilydd Cyffredinol Cymru, gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnal yr archwiliad allanol o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gwaith archwilio hwn yn cynnwys archwilio cyfrifon, ystyried trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ("gwerth am arian") ac astudiaethau gwerth am arian, gan gynnwys mewn perthynas â gwasanaethau.
- 6 Yn unol â hynny, mae unrhyw feysydd sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd yn ymwneud â sefyllfa lle mae i'r defnydd o arian cyhoeddus a threfniadau llywodraethu gwasanaeth penodol oblygiadau o ran arolygu (a rheoleiddio) y gwasanaeth hwnnw a'i archwilio. Un enghraifft o faes o'r fath yw diogelu plant sy'n agored i niwed, ac yn y meysydd hynny y mae'r pedwar corff yn cydweithio i sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth berthnasol ac yn cydgysylltu eu rhaglenni gwaith.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

- 7 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol y rhan fwyaf o gyrrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys:
 - Llywodraeth Cymru;
 - Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru;
 - cyrrff y GIG;
 - cyrrff eraill sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru, megis Estyn;
 - Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a
 - chyrrff llywodraeth leol, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.
- 8 Mae'r gwaith archwilio yn cynnwys:
 - yr archwiliad blynyddol o gyfrifon cyrrff cyhoeddus;
 - ystyried trefniadau'r GIG a chyrrff llywodraeth leol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau bob blwyddyn; ac
 - astudiaethau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyrrff cyhoeddus wrth ddefnyddio adnoddau a gwelliant posibl.

- 9 Yn y GIG a llywodraeth leol, mae'r ystyriaeth flynyddol o drefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn cynnwys gwirio cadernid trefniadau llywodraethu corfforaethol. Mewn llywodraeth leol, mae gwaith o'r fath wedi'i gyd-drefnu â gwaith asesu gwelliant sy'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- 10 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiadau ar ganlyniadau gwaith archwilio. Ac eithrio adroddiadau sy'n ymwneud â llywodraeth leol yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gosod adroddiadau ar gyfrifon ac astudiaethau gwerth am arian gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- 11 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi gwaith yr Archwilydd Cyffredinol drwy ddarparu staff ac adnoddau eraill i gynnal ei raglen flynyddol o waith archwilio.

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

- 12 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n cyflawni'r swyddogaethau hyn ar ran Gweinidogion Cymru. Mae AGGCC yn annog y gwaith o wella gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac yn rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a llunwyr polisi. Er bod AGGCC yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae trefniadau ar waith i sicrhau annibyniaeth weithredol. Nod AGGCC yw rhoi sicrwydd ynghlŷn ag ansawdd y gofal a roddir ac a yw pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn cael eu diogelu. Ymhlith y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio a'u harolygu gan AGGCC mae:
 - Gofalwyr plant, meithrinfeydd dydd a chynlluniau chwarae
 - Cartrefi gofal preswyl i blant sy'n derbyn gofal a phobl hŷn
 - Asiantaethau gofal yn y cartref
 - Gwasanaethau maethu a mabwysiadu
- 13 Mae AGGCC yn adolygu ac yn arolygu pa mor effeithiol yw adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o ran cefnogi pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae hyn yn cynnwys arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, cynnal adolygiadau thematig ledled Cymru a gwerthuso perfformiad adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Mae AGGCC hefyd yn cynnal arolygiadau ar y cyd ag AGIC ac Estyn mewn perthynas ag elfennau gofal cymdeithasol darpariaeth iechyd ac addysg. Mae AGGCC yn rhan o arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru, mewn perthynas ag anghenion gofal cymdeithasol pobl yn yr ystad ddiogel.
- 14 Mae AGGCC yn paratoi adroddiadau arolygu ar bob gwasanaeth gofal cymdeithasol cofrestredig, arolygiadau thematig o feysydd penodol ym maes gofal cymdeithasol ac adroddiad Prif Arolygdd bob blwyddyn. Mae'r gwaith hwn yn llywio'r sector gofal cymdeithasol cyhoeddus ac yn rhoi tystiolaeth i Weinidogion

Llywodraeth Cymru o effaith y ddeddfwriaeth ar ganlyniadau i blant ac oedolion ym mhob rhan o ofal cymdeithasol.

Estyn, Arolygydd Addysg Cymru

- 15 Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sef corff y Goron sy'n annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol, ond sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
- 16 Mae'r gwaith arolygu yn canolbwyntio ar godi safonau ac ansawdd ym maes addysg a hyfforddiant ledled Cymru. Mae Estyn yn arolygu pob math o ddarparwr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mewn rhai sectorau, mae Estyn yn gweithio gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill i arolygu darpariaeth. Er enghraifft, mae Estyn yn arolygu, drwy gydweithio ag arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, addysg troseddwr yn yr ystad ddiogel a charchardai yng Nghymru.
- 17 Mae Estyn hefyd yn rhoi cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru. Mae llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at y Prif Arolygydd yn comisiynu Estyn i ddarparu tua 15 o adroddiadau thematig gwahanol bob blwyddyn. O bryd i'w gilydd, pan fo angen a phan fydd adnoddau yn caniatáu, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad thematig nas comisiynwyd yn benodol gan Lywodraeth Cymru. Mae cyngor Estyn yn rhoi tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr. Mae Estyn yn hyrwyddo arfer da yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau a'i chylch gwaith. Mae Estyn yn llunio barn unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ac mae hyn yn cyfrannu at y polisïau ar gyfer addysg a hyfforddiant a gyflwynir yng Nghymru.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

- 18 Rôl graidd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygu, a lle y bo'n briodol, reoleiddio sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da. Mae gan AGIC gyfrifoldeb penodol am sicrhau y caiff buddiannau pobl y cyfyngir ar eu hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl eu diogelu'n briodol. Mae AGIC yn cyflawni rôl yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Gall AGIC gynnal adolygiadau thematig cenedlaethol i fonitro pa mor dda y mae gwasanaethau yn perfformio.

- 19 AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn arfer rhai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, sy'n cynnwys y gallu i ystyried:
- argaeledd gofal iechyd a mynediad iddo;
ansawdd ac effeithiolrwydd gofal iechyd;
 - trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill gofal iechyd a darbodusrwydd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaeth;
 - argaeledd ac ansawdd gwybodaeth a roddir i'r cyhoedd; a'r
 - angen i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.

Rhaglen Arolygu Cymru

- 20 Er bod gwahaniaethau clir rhwng gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, AGGCC, Estyn ac AGIC, ceir rhai meysydd lle mae gan fwy nag un sefydliad rôl. Ac yn y meysydd hynny, mae'n ddymunol bod y pedwar sefydliad yn cydweithio i wneud defnydd effeithiol ac effeithlon o'u hadnoddau cyfunol. O ran y cyrff a archwilir ac a arolygir, mae cyd-drefnu o'r fath yn helpu i sicrhau bod y gwaith archwilio ac arolygu hwn yn ei gyfanrwydd yn gymesur, wedi'i gydgyssylltu'n briodol ac yn rhoi negeseuon cyson.
- 21 Sefydlodd y pedwar corff archwilio ac arolygu Raglen Arolygu Cymru er mwyn hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, lle y bo'n gymwys. Nid sefydliad ar wahân yw Arolygu Cymru, ond rhaglen waith sy'n rychwantu pob corff er mwyn galluogi aelodau perthnasol o staff i gydweithio. Drwy gydweithio'n effeithiol, maent yn cynyddu eu heffaith fuddiol i'r cyhoedd.

Atodiad 1

Y sail gyfreithiol dros gyrff Archwilio ac Arolygu yng Nghymru

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn darparu pwerau a dyletswyddau'r pedwar sefydliad archwilio ac arolygu.

Yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi'r pŵer i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaethau gwella gwerth am arian mewn perthynas ag unrhyw un o'r gyrff y mae'n eu harchwilio, gan gynnwys gyrff y GIG ond heb gynnwys gyrff llywodraeth leol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o gyrff y GIG a llywodraeth leol, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned, gael eu harchwilio. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried trefniadau a wneir gan gyrff o'r fath i sicrhau gwerth am arian, ac astudiaethau ar gyfer gwella gwerth am arian mewn gyrff llywodraeth leol.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilio Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n darparu ar gyfer eu hastudiaethau gwerth am arian Llywodraeth Cymru.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol asesu "Awdurdodau Gwella Cymru" (awdurdodau unedol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) o ran cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau i wella a ddarperir gan y Mesur.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru gynorthwyo'r Archwilydd Cyffredinol, ac mae hefyd yn rhoi pwerau atodol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, megis y pŵer i ddarparu gwasanaethau proffesiynol drwy gytundeb.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried cydymffurfiaeth y rhan fwyaf o brif gyrff cyhoeddus â gofynion pennu amcanion llesiant ac adrodd y Ddeddf honno.

Mae'n ofynnol archwilio Cyrff penodol a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru o dan amrywiol ddeddfwriaeth, yn aml y ddeddfwriaeth sefydlu berthnasol. Er enghraifft, mae'n ofynnol archwilio Comisiynydd y Gymraeg o dan Baragraff 19 o Atodlen 1 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Crynhoir manylion pellach yn y [Canllaw i Ddeddfwriaeth Archwilio Cyhoeddus Cymru](#).

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 200 yn rhoi pwerau i adolygu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol; ac

Mae Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd), Mabwysiadu, a Deddf Plant 2002, a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi'r pŵer i gofrestru ac arolygu darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bwriedir i Fil Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2016 drawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru eu darparu, a bydd y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) sydd i'w ddeddfu yn 2017 yn llywio'r ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu harolygu a'u rheoleiddio.

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ac Estyn

Nodir statws Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Caiff swyddogaethau'r Prif Arolygydd a'i staff eu harfer ar ran y Goron. Mae Estyn (swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yn annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ond mae'n cael ei hariannu ganddo. Pan gafodd ei sefydlu gyntaf, prif ddiben Estyn oedd arolygu addysg a ddarparwyd mewn ysgolion. Cafodd cylch gwaith a chyfrifoldebau'r Arolygiaeth eu hestyn o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 i gynnwys addysg a hyfforddiant i bobl 16 oed a throsodd ac eithrio addysg uwch. Ers hynny mae cylch gwaith Estyn wedi cael ei estyn ymhellach i gynnwys arolygu ysgolion annibynnol a gwasanaethau gyrfaoedd.

Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn golygu mai Estyn sy'n gyfrifol am arolygu'r rhan fwyaf o agweddau ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru, o ddarpariaeth cyn ysgol i addysg i oedolion, ac eithrio addysg uwch. Ceir rhestr fanwl o'r sectorau addysg sy'n rhan o gylch gwaith Estyn yn: <http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/amdanom-ni/ein-gwaith/>.

Gwneir y gwaith hwn er mwyn cyflawni'r swyddogaethau a nodr yn Neddf Addysg 1997; Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998; Deddf Safonau a Framwaith Ysgolion 1998; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000; Deddf Addysg 2002; a Deddf Addysg 2005.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 yn rhoi pwerau i AGIC fynd i mewn i unrhyw safle sy'n eiddo i un o gyrff GIG Cymru neu a reolir ganddo neu unrhyw safle arall a ddefnyddir at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau un o Gyrrff GIG Cymru a'i arolygu. O dan y Ddeddf hon gall AGIC hefyd wneud copïau a mynd ag unrhyw ddogfennau neu gofnodion (gan gynnwys

cofnodion personol a chyfweld ag unrhyw un sy'n gweithio ar y safle neu sy'n cael triniaeth yno).

Mae Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn rhoi pwerau i AGIC gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Diwygio 2011 yn rhoi pwerau i AGIC gofrestru deintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat yng Nghymru.

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Diwygiadau 2007, a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn caniatáu i AGIC fonitro'r ffordd y mae gwasanaethau (rhai'r GIG a rhai Annibynnol) yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 yn rhoi'r pŵer i AGIC arolygu a gorfodi rhag diffyg cydymffurfiaeth.

Atodiad 2

Canlyniad Adolygiad Archwilio ac Arolygu 2014 Llywodraeth Cymru

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o archwilio, arolygu a rheoleiddio yn 2014. Cynhaliodd weithdai gyda nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys cynrychiolwyr o bedwar partner Arolygu Cymru, a chynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn datblygu cyfres gyffredin o egwyddorion a phriodoleddau adolygu allanol. Nodir y rhain isod.

Diben adolygu allanol yng Nghymru yw:

- Hyrwyddo buddiannau'r cyhoedd drwy ddwyn gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif am ddarparu gwasanaethau a phenderfyniadau ynglŷn â'r defnydd o adnoddau cyhoeddus.
- Annog gwelliant cynaliadwy mewn gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella'r canlyniadau i'r cyhoedd.
- Llywio polisi ac arfer o fewn sefydliadau unigol, Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.
- Diogelu'r cyhoedd drwy roi gwybod yn amserol am broblemau o fewn gwasanaeth neu sefydliad a nodwyd yn ystod gweithgareddau adolygu.
- Hyrwyddo cynnal busnes cyhoeddus yn briodol o ran ymddygiadau a gweithgareddau.

Swyddogaeth adolygu allanol yng Nghymru yw:

- **Archwilio:** Archwiliadau annibynnol ac adroddiadau cyhoeddus er mwyn ei gwneud yn bosibl i sefydliadau gael eu dwyn i gyfrif am eu gonestrwydd a gwarchod arian cyhoeddus.
- **Arolygu:** Gwerthuso safonau ac ansawdd gwasanaethau cyhoeddus ac effaith y ddarpariaeth hon o wasanaethau ar y cyhoedd a chyhoeddi adroddiadau arnynt.
- **Rheoleiddio:** Sicrhau safonau proffesiynol ac ansawdd gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn gwella'r canlyniadau iddynt.

Priodoleddau allweddol adolygu allanol yng Nghymru yw:

- **Cymesured:** Mae Adolygu Allanol yn amlwg gymesur â'r risg, y potensial ar gyfer gwelliant, y budd tebygol i'r cyhoedd a buddiannau'r cyhoedd.
- **Annibyniaeth:** Mae Adolygu Allanol yn annibynnol ac nid yw wedi'i gyfyngu gan unrhyw barti o ran penderfynu sut mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau, dod i gasgliadau ac yn cyflwyno adroddiadau ar ganfyddiadau.
- **Atebolrwydd:** Mae Adolygu Allanol yn atebol yn gyhoeddus am ei ddefnydd o adnoddau cyhoeddus a gall ddangos gwerth am arian ym mhob un o'i weithgareddau.
- **Cydweithredu:** Mae Adolygu Allanol yn cydweithredu ar faterion perthnasol er mwyn sicrhau mwy o effaith, cost-efeithiolrwydd, llai o ofynion ar y sefydliadau hynny sy'n destun adolygiad, a phroses gyflawni gydgysylltiedig i'r cyhoedd.

- **Tryloywder:** Mae Adolygu Allanol yn dryloyw, lle y bo'n briodol, o ran ei weithgareddau, ei ffocws, meini prawf gwneud penderfyniadau, prosesau busnes, asesiadau ac adroddiadau.
- **Proffesiynoldeb a chymhwysedd:** Cynhelir Adolygu Allanol mewn ffordd sy'n dangos uniondeb proffesiynol, hygredd a chymhwysedd. Gwelir ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn amserol, yn gyson ac yn deg ym mhob un o'i weithgareddau.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. 2014. Yn dilyn trafodaethau ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid allweddol, a'r cyrff archwilio ac arolygu.

